# Ymwelwyr Tramor – Ffurflen

# Wybodaeth i Gleifion

**Pam fy mod wedi cael y ffurflen hon?**
Yn y GIG, mae rhai gwasanaethau gofal iechyd am ddim, ond nid yw pawb yn gymwys yn awtomatig i gael triniaeth am ddim.
Mae gan ysbytai ddyletswydd gyfreithiol i wirio a yw cleifion yn gymwys i gael gofal GIG am ddim.
Dyma pam ein bod yn gofyn i rai cleifion lenwi ffurflen Ymwelydd Tramor.
Nid yw cwblhau'r ffurflen yn effeithio ar eich gofal. Byddwch yn dal i dderbyn unrhyw driniaeth frys neu driniaeth angenrheidiol.

**Pwy sydd angen cwblhau'r ffurflen hon?**
Efallai y gofynnir i chi lenwi'r ffurflen hon os:

- Nad ydych chi fel arfer yn byw yn y DU, neu
- Ydych chi wedi symud i'r DU yn ddiweddar, neu
- Oes angen cadarnhau eich statws preswylio neu fewnfudo

**Pa wybodaeth fydd angen i mi ei darparu?**
Mae'r ffurflen yn gofyn am fanylion fel:

- Eich enw a'ch dyddiad geni
- Eich cyfeiriad (yn y DU a'ch gwlad gartref)
- Eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo
- Dyddiadau teithio i'r DU ac oddi yno
- Manylion unrhyw fisa (gan gynnwys cod rhannu i weld a phrofi eich statws preswylio, a fydd yn dechrau gydag 'S'), pasbort, neu ddogfennau preswylio
- Gwybodaeth am yswiriant teithio neu yswiriant iechyd

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi, gan gynnwys dogfennau adnabod (e.e. pasbort, fisa, trwydded yrru neu drwydded breswylio). Bydd y dogfennau hyn yn cael eu copïo a'u dychwelyd atoch.

I gleifion EEA, mae hyn yn cynnwys EHIC neu PRC.

**A fydd yn rhaid i mi dalu am driniaeth?**
Efallai y codir tâl ar rai cleifion am driniaeth y GIG yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.
Os oes angen codi tâl:

- Bydd y Tîm Ymwelwyr Tramor yn cadarnhau hyn gyda chi ar ôl i'ch cymhwysedd gael ei asesu'n llawn. Yna bydd anfoneb yn cael ei chodi lle bo hynny’n briodol.

- Ar gyfer apwyntiadau wedi'u cynllunio, bydd anfonebau fel arfer yn cael eu hanfon ymlaen llaw lle bo modd.
- Mae unrhyw incwm yr ydym yn ei adennill yn helpu i gefnogi gofal cleifion y GIG.

**Beth os nad ydw i'n gwybod fy statws?**
Os ydych chi'n ansicr ynghylch eich cymhwysedd neu pa wybodaeth i'w darparu:

- Cwblhewch gymaint o'r ffurflen ag y gallwch
- Gall aelod o staff neu'r tîm Ymwelwyr Tramor eich helpu

**A fydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?**
Efallai y bydd angen i ni wirio eich manylion gyda sefydliadau swyddogol, megis y Swyddfa Gartref, i gadarnhau eich bod yn gymwys.
Mae hyn yn rhan o'n dyletswydd gyfreithiol a bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â rheolau diogelu data.

**Gwybodaeth Bwysig**

- Ni fydd eich triniaeth yn cael ei gohirio na'i gwrthod os yw'n driniaeth frys neu os oes ei hangen ar unwaith.
- Atebwch bob cwestiwn yn onest os gwelwch yn dda
- Gall rhoi gwybodaeth anghywir effeithio ar eich cymhwysedd

**Beth ddylwn i ei wneud nesaf?**

1. Cwblhewch y ffurflen mor llawn ag y gallwch
2. Rhowch hi yn ôl i'r aelod o staff
3. Darparwch unrhyw ddogfennau sydd gennych fel y gallwn eu copïo (byddant yn cael eu dychwelyd atoch)

**Angen help?**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Ymwelwyr Tramor:

📞 01873 732387 / 01873 733105
✉ abb.overseasvisitors@wales.nhs.uk
🕒 Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am–4pm